## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar ddydd Mercher, 26 Ionawr 2000 am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, M.Ll. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, G. Jones, M.M. Jones (arsylwr), N.H. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, F. Shaw, J.A. Smith, K.P. Stevens, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, E.W. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol, Prif Swyddog Cynllunio (Gogledd), Prif Swyddog Cynllunio (De), Prif Swyddog Cynllunio a Gorfodaeth a Swyddog Gweinyddol (G. Butler)

## CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

Y Cynghorwyr D.W. Davies, R.W. Hughes ac S. Thomas.

### 794. EITEM FRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y materion canlynol, oedd angen sylw brys, i'w trafod:-

(i) Cynllun Dirprwyo

### 795. CYNLLUN DIRPRWYO

Gofynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio i'r aelodau edrych ar y Cynllun Dirprwyo a fyddai'n dod i rym o 1 Chwefror, 2000, a dywedodd y byddai holl Aelodau'r Cyngor yn derbyn rhestr wythnosol o'r holl geisiadau yn nodi a oeddynt yn y Categori Dirprwyol neu Bwyllgor. Yna byddai gan yr Aelodau gyfle i wneud sylwadau am achosion unigol a/neu wneud cais i'r cais cynllunio gael ei benderfynu mewn cyfarfod Pwyllgor.

Roedd yr aelodau o'r farn y byddai'n briodol i Adroddiadau Pwyllgor y dyfodol roi manylion am resymau'r Cynghorwyr dros ofyn am ddod â chais cynllunio penodol ger bron y Pwyllgor.

### 796. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhifo'r cynlluniau a gyflwynwyd yr oedd angen i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod caniatâd fel bo'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Caniataol Cyffredinol), Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990, i ddatblygiadau arfaethedig y cynlluniau canlynol yn unol â'r amodau wedi eu rhifo yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/1999/0788 | Newid defnydd siop wag (A1) yn swyddfa gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2) yn B C G, 35 Stryd Fawr, Dinbych, Sir Ddinbych. |

| | |
|---|---|
| 01/1999/0821 | Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr adeilad o swyddfeydd i ddefnydd addysgol yn Rock House, Highgate, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 02/1999/0779 | (Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Tref Rhuthun).<br>Gosod blaen newydd i siop ac adnewyddu ffenestri'r llawr cyntaf yn 6 Stryd y Castell, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 02/1999/0808 | (Yn dilyn ystyried pum llythyr sylwadau ychwanegol gan Gymdeithas Rhuthun a'r Fro; Mr. Ali, 54 Stryd y Ffynnon, Rhuthun; R. Rob, Spice Bangla, Stryd Clwyd, Rhuthun; L. Turner, Manor House, Stryd y Ffynnon, Rhuthun a D.J. Jones, 45 Stryd Clwyd, Rhuthun).<br>Newid defnydd uned siop llawr gwaelod (dosbarth A1) yn siop pryd-ar-glud (dosbarth A3), yn cynnwys addasu blaen y siop, gosod canopi a simne stêm (flue) yn Grosvenor Stores, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>YN UNOL â'r amod diwygiedig canlynol, rhif 4:-<br>4. Bydd y canopi ar flaen y siop y math canfas tynnu i lawr trafoddiadol, gyda'r manylion yn cydymffurfio yn union â'r cynlluniau i'w cyflwyno i'w hystyried gan ac i'w cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gosod y canopi. |
| 08/1999/0845 | Newid defnydd cyn iard goed i ffurfio estyniad i faes parcio trelars a Cherbydau Nwyddau Trwm yn The Old Timber Sawmill, Hen Iard yr Orsaf, Cynwyd, Corwen.<br>YN UNOL â'r amodau diwygiedig canlynol, rhifau 2 a 5, ac amod newydd rhif 6:-<br>2. Cyfyngir yr adegau y bydd cerbydau yn mynd i mewn ac allan o'r safle i rhwng oriau 0800 a 1800 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 0800 a 1200 ar ddydd Sadwrn, ac ni chaiff cerbydau fynd i mewn nac allan o'r safle ar y Sul na Gwyliau Cyhoeddus.<br>RHESWM - fel yn yr adroddiad.<br>5. Rhaid cwblhau'r twmpathau pridd a'r gwaith plannu a ddangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd cyn defnyddio'r safle ar gyfer parcio cerbydau am y tro cyntaf, a bydd unrhyw blanhigion sy'n marw, yn cael eu tynnu oddi yno, neu'n cael eu niweidio neu eu heintio'n ddifrifol o fewn pum mlynedd i'w plannu yn cael eu hadnewyddu yn ystod y tymor plannu nesaf â phlanhigion eraill o rywogaeth a maint tebyg.<br>RHESWM - fel yn yr adroddiad.<br>6. Ni cheir parcio cerbydau ar y safle nes adeiladu ataliwr addas ar y safle i rwystro olew, petrol ac irad rhag treiddio i'r Afon Dyfrdwy. Rhaid cyflwyno manylion yr ataliwr i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hystyried, a dylid eu gweithredu yn unol â'r cynlluniau sy'n derbyn caniatâd ysgrifenedig ffurfiol gan yr Awdurdod.<br>RHESWM - i rwystro llygru'r amgylchedd dwr er budd amwynder. |
| 13/1999/0516 | (Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Cymuned Efenechtyd).<br>Adeiladu annedd deulawr a garej domestig ar wahân ar dir yn Dolafon, Pwllglas, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 15/1999/0825 | Adleoli'r gegin sy'n bodoli yn awr ac ailadeiladu'r to fflat cysylltiedig yn Parc Farm Caravans, Ffordd Graianrhyd, Llanarmon-yn-Iâl, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. |

| | |
|---|---|
| 20/1999/0787 | Adeiladu annedd pedair llofft a garej ar wahân, creu mynediad newydd i gerbydau (manylion diwygiedig i'r rhai a gymeradwywyd yn flaenorol o dan rif cais 30/14, 487) ar dir wrth ymyl Glan Dwr, Graigfechan, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 20/1999/0859 | (Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan y Pennaeth Priffyrdd).<br>Adeiladu garej domestig cyfunedig yn Hafod Y Bryn, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>Mae'r argymhelliad yn amodol ar gwblhau Ymrwymiad Adran 106 o fewn 12 mis i ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, sicrhau diddymu'r caniatâd cynllunio ar gyfer garej ar wahân a roddwyd o dan Rhif Côd 30/14,808. Os na chwblheir yr Ymrwymiad, byddai'r cais yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor i'w benderfynu yn unol â'r polisïau perthnasol a'r ystyriaethau materol ar yr adeg hynny. Dim ond ar ôl cyflawni'r Ymrwymiad Adran 106 y cyflwynir y caniatâd cynllunio. |
| 42/1999/0610 | Addasu ac adnewyddu hen stablau i ffurfio un annedd yn Plas Yn Foel, Ffordd Foel Isaf, Dyserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>YN UNOL a'r amodau diwygiedig canlynol, rhifau 3 a 4, a nodyn newydd i'r ymgeisydd, rhif 1:-<br>3. Ni chaniateir byw yn yr annedd nes bo'r lle parcio a'r mynediad iddo wedi eu gosod yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd.<br><br>4. Serch darpariaethau Dosbarthiadau A, B, C, Ch a D Rhan 1 Atodlen 2.<br>Nodyn i'r Ymgeisydd, rhif 1 - Ni chaniateir cyswllt newydd â'r system garthffosiaeth gyhoeddus heb ganiatâd o flaen llaw a goruchwyliaeth yr Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd. |
| 43/1999/0853 | (AR YR AMOD na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach erbyn 4 Chwefror yn ymdrin â materion cynllunio na chawsant eu cynnwys yn yr adroddiad eisoes).<br>Creu llwybr seiclo a gosod 27 o golofnau goleuo yn Ysgol Penmorfa, Rhodfa Dawson, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>YN UNOL â'r amod newydd canlynol, rhif 4:-<br>4. Ni chaiff y colofnau goleuo a ganiateir trwy hyn eu defnyddio, ac eithrio yn ystod profi bod y goleuadau'n gweithio, nes bo unrhyw lamplen sy'n angenrheidiol ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi eu gosod.<br>RHESWM - er budd mwynderau'r trigolion cyfagos.<br>(Dylid nodi y pleidleisiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones yn erbyn y cais hwn)<br>(Hefyd gofynnodd yr aelod am ystyried gwahanu cerddwyr a seiclwyr ar y llwybr seiclo, er budd diogelwch). |
| 43/1999/0860 | Adeiladu 2 fyngalo dormer a garejis ar dir yn Seabank Drive Cyffordd Ceg Y Ffordd, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>YN UNOL â'r nodiadau ychwanegol canlynol i'r ymgeisydd:-<br>Dywed yr Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd bod pibell garthffosiaeth gyhoeddus yn croesi'r safle a bydd yn angenrheidiol neilltuo llain hawddfraint/cynnal a chadw 3m o led y naill ochr i'r bibell garthffosiaeth oni bai fod yr ymgeisydd yn arwyddo Cytundeb Pibell Garthffosiaeth Adran 185 i wyro'r bibell garthffosiaeth gyhoeddus o amgylch yr annedd arfaethedig.<br>Noder y bydd draeniau'r datblygiad hwn yn rhan o system ar wahân. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd ar 01492 543950. |

43/1999/0913

(Yn dilyn ystyried tri llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Tref Prestatyn, y Pennaeth Priffyrdd a'r Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd).

Adnewyddu cais cynllunio cyfeirif 2/PRE/7/95/P yn cynnwys adeiladu un annedd sengl mewn rhan o ardd ochr yn 42 Ffordd Aberconwy, Prestatyn, Sir Ddinbych.

YN UNOL â'r amod newydd canlynol, rhif 7, a'r nodiadau i'r ymgeisydd, rhifau 1 a 2:-

7. Nid yw'r caniatâd hwn yn berthynol i fanylion ac ymddangosiad allanol yr annedd a gyflwynwyd gyntaf yn 1984 ac sy'n ffurfio rhan o'r cais hwn. Rhaid cyflwyno manylion am ddyluniad ac ymddangosiad allanol yr annedd a ganiateir trwy hyn i, a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y datblygiad.

RHESWM - er budd mwynderau gweledol yr ardal.

Nodiadau i'r Ymgeisydd:-

1. Tynnir eich sylw at y manylion safonol ar gyfer mynediad newydd i gerbydau i'r math yma o ddatblygiad.

2. Noder y bydd draeniau'r datblygiad hwn yn rhan o system ar wahân. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd ar 01492 543950.

44/1993/0877

(Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau gan Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd).

Newid defnydd o ddosbarth A1 (manwerthu) i ddosbarth A3 (bwyty/caffi) yn hen Fanc y Midland, Stryd Fawr, Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

YN UNOL â'r amod newydd canlynol, rhif 5:-

5. Cyn dechrau defnyddio'r adeilad, dylid gosod offer ar gyfer cael gwared o fygdarthau ac arogleuon sy'n deillio o baratoi a choginio bwyd yn unol a manylion a gyflwynir i'r, ac a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yn dilyn gosod offer o'r fath, dylid ei ddefnyddio bob tro y mae bwyd yn cael ei baratoi a/neu ei goginio.

45/1999/0905

(Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol gan yr Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd a'r Pennaeth Priffyrdd).

Datblygu 0.03 hectar o dir rhwng 195 a 197 Ffordd Arfordir Y Rhyl trwy adeiladu un adeilad i gynnwys 2 *maisonette* (cais amlinellol) yng Ngwersyll Gwyliau Lyons Cyf., Ffordd Arfordir Y Rhyl, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

YN UNOL â'r amod newydd canlynol, rhif 6, a'r nodiadau i'r ymgeisydd rhifau 1, 2 a 3:-

6. Ni fydd unrhyw fynediad i gerbydau na cherddwyr i neu o safle'r cais i dir y safle (Gwersyll Gwyliau Lyons).

RHESWM - er budd mwynderau'r preswylwyr a diogelwch y ffordd fawr.

Nodiadau i'r ymgeisydd:-

1. Nodiadau Priffyrdd y Sir rhifau 1, 3, 4, 5 a 10.

2. Tynnir eich sylw at y manylion safonol ar gyfer mynediad newydd i gerbydau i'r math yma o ddatblygiad.

3. Noder y bydd draeniau'r datblygiad hwn yn rhan o system ar wahân. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd ar 01492 543950.

Ni chaniateir cyswllt newydd â'r system garthffosiaeth gyhoeddus heb ganiatâd o flaen llaw a goruchwyliaeth yr Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd.

45/1999/0919

(Datganodd y Cynghorydd F. Shaw ei fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth).

| | | |
|---|---|---|
| | | Adeiladu estyniad unllawr â tho pig i greu ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn Ysgol Llewelyn, Ffordd Trellewelyn, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |
| | 47/1999/0857 | (Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol gan yr Ymgeisydd a Phennaeth Gwarchod y Cyhoedd).<br>Adeiladau ty sengl a garej ar dir y tu ôl i'r Smith Arms, Ffordd Treffynnon, Rhuallt, Llanelwy, Sir Ddinbych.<br>YN UNOL â'r amodau newydd a diwygiedig canlynol, rhifau 3, 5, 6 a 7:-<br>3. Cyn dechrau ar y datblygiad dylid cynnal ymchwiliad ar y safle i ganfod cyflwr y tanc carthion a'r system ffos gerrig gysylltiedig i weld a all ymdopi â'r datblygiad presennol a'r un arfaethedig yn defnyddio'r tanc. Rhaid cyflwyno canlyniadau'r ymchwiliad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd unrhyw waith adfer neu ddarpariaeth draeniad carthion newydd sy'n angenrheidiol yn nhyb yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn yr ymchwiliad safle yn cael ei ddarparu, a dylai fod yn weithredol cyn i unrhyw un breswylio yn yr annedd.<br>6. Rhaid cyflwyno manylion am y plannu arfaethedig ar ffin safle'r cais â'r ty tafarn drws nesaf i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod, cyn dechrau ar y datblygiad.<br>RHESWM - er budd mwynderau gweledol a mwynderau preswylwyr.<br>7. Amod Safonol 15F "yn dilyn preswylio yn yr annedd". |
| (ii) | gwrthod caniatâd | |
| | <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
| | 30/1999/0794 | (Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol gan y Pennaeth Priffyrdd a Deiseb a lofnodwyd gan 250 o drigolion Trefnant (a gyflwynwyd i'r pwyllgor gan y Cynghorydd M.Ll. Davies)).<br>Mewnlenwi tir â gwastraff adeiladu anadweithiol ar dir wrth ymyl a rhan o gae rhif 4100, Hafod Y Green, Trefnant, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>OHERWYDD y rhesymau diwygiedig canlynol:-<br>1. Byddai'r cynllun arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau preswyl trigolion cyfagos oherwydd y swn fyddai'n cael ei achosi gan y gweithgareddau arfaethedig ar y safle a symudiadau cerbydau i ac o'r safle a'r potensial ar gyfer allyrru llwch o'r safle yn groes i Bolisi H14 Cynllun Strwythur Clwyd a Pholisi CN29 Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn.<br>2. Byddai'r cynllun arfaethedig yn amharu ar ymddangosiad a chymeriad tirlun yr ardal trwy golli hen goedwig a dyffryn â nant, yn groes i Bolisïau H5 a H14 Cynllun Strwythur Clwyd a Pholisïau CN3 a CN20 Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn sy'n ceisio gwarchod yr Ardal Tirlun Arbennig y mae safle'r cais yn rhan ohoni.<br>3. Byddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at golli ardal o goedwig wedi hen ymsefydlu sydd â gorchymyn cadwraeth coed mewn grym, ac yn cael effaith ar gynefinoedd bywyd gwyllt a ddarperir gan y goedwig a'r nant yn groes i Bolisïau H7 a H14 Cynllun Strwythur Clwyd a Pholisïau CN12, CN15 a CN29 Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn.<br>4. Ni fyddai'r mynediad arfaethedig o safon digon uchel i wasanaethu'r datblygiad oherwydd gweledigaeth annigonol o'r pwynt mynediad i'r ddau gyfeiriad ar hyd y ffordd Dosbarth C. Byddai hyn, ynghyd â'r symudiadau trafnidiaeth ychwanegol fyddai'n cael eu creu gan y cynllun arfaethedig, yn amharu ar ddiogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd fawr yn groes i Bolisi CN29 Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn. |
| | 42/1999/0858 | Dymchwel yr hen laethdy ac adeiladu annedd newydd yn Tan Y Graig, Ffordd Foel Isaf, Dyserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |

OHERWYDD y rheswm diwygiedig canlynol:-
Yr ail frawddeg i nodi "Ystyrir na fyddai digon o le ar gyfer amwynder preifat a llefydd troi a pharcio, byddai ffenestri yr annedd arfaethedig a'r un sy'n bodoli eisoes yn edrych dros ei gilydd, a byddai'r mynediad cul yn arwain at darfu ar a cholli preifatrwydd. O ganlyniad i hynny, byddai'r cynllun arfaethedig yn creu amgylchedd byw gwael i breswylwyr yr aneddau presennol, Tan y Graig a Lyndhurst, a'r annedd arfaethedig.

| | |
|---|---|
| 43/1999/0838 | (Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd).<br>Newid defnydd o ddosbarth A1 (manwerthu) i ddosbarth A3 (bwyty/siop bwydydd pryd-ar-glud poeth) yn 208 Stryd Fawr, Prestatyn, Sir Ddinbych. |

*(b)* *Serch argymhelliad y Swyddogion, bod y ceisiadau canlynol i'w GWRTHOD am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 12/1999/0816 | Adeiladu estyniad i adeilad da byw ac offer amaethyddol (mewn adolwg) yn Braich Yr Alarch, Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod ychwanegu estyniad pellach i'r adeilad yn amhriodol gan fod hyn yn cynyddu maint ac effaith yr adeilad i raddau anfoddhaol o ran ei effaith ar Braich Yr Alarch, adeilad rhestredig Gradd II, ac ar y tirlun lleol mewn Ardal Tirlun Arbennig fel y'i diffiniwyd yng Nghynllun Strwythur Sir Clwyd: Diwygiad Cyntaf, ac yn groes i Bolisïau L16 Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, a Pholisïau G7 a H5 Cynllun Strwythur Sir Clwyd: Diwygiad Cyntaf.<br>(Fe wnaeth y Cynghorwyr J.R. Hughes a P.O. Williams ymatal eu pleidlais). |
| 12/1999/0817 | Adeiladu estyniad i adeilad da byw ac offer amaethyddol (mewn adolwg) yn Braich Yr Alarch, Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod ychwanegu estyniad pellach i'r adeilad yn amhriodol gan fod hyn yn cynyddu maint ac effaith yr adeilad i raddau anfoddhaol o ran ei effaith ar Braich Yr Alarch, adeilad rhestredig Gradd II, ac ar y tirlun lleol mewn Ardal Tirlun Arbennig fel y'i diffiniwyd yng Nghynllun Strwythur Sir Clwyd: Diwygiad Cyntaf, ac yn groes i Bolisïau L16 Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, a Pholisïau G7 a H5 Cynllun Strwythur Sir Clwyd: Diwygiad Cyntaf.<br>(Fe wnaeth y Cynghorwyr J.R. Hughes a P.O. Williams ymatal eu pleidlais). |
| 17/1999/0548 | (Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Cymuned Llandegla ac E.J. Silverstone).<br>Defnyddio tir amaethyddol ar gyfer hedfan gleidars heb injan, i'w lansio i'r awyr gyda winsh, gosod carafan yn ganolfan i'r clwb, cynhwysydd storio, lle parcio, toiled a hosan wynt ar dir i'r gogledd orllewin i ffordd yr A5104 gyferbyn â Cae Mawr, i'r de o Landegla, Sir Ddinbych.<br>Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>1. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol byddai gweithredu maes gleidars yn cael effaith annerbyniol ar harddwch yr ardal, sy'n rhan o |

Ardal Tirlun Arbennig (Cynllun Strwythur Cyngor Sir Clwyd: Diwygiad Cyntaf) ac Ardal Tirlun Eithriadol (Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr) o ganlyniad i'r gweithgareddau ar y safle yn gysylltiedig â hyn, yn cynnwys cael gwared o goed a gwrychoedd, gosod cynwysyddion, carafan a thoiled symudol a pharcio a symud cerbydau a threlars, a gosod offer atodol eraill, yn effeithio'n andwyol ar natur y tirlun. Ystyrir bod y cynigion yn gwrthdaro â Pholisïau L1 ac A1(i) a (iii) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, H3 a H5 Cynllun Strwythur Cyngor Sir Clwyd : Diwygiad Cyntaf, a Pholisi ENV2 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

2. Ystyrir bod y ffordd at y safle oddi ar yr A5104 yn anaddas ar gyfer ymdopi â'r drafnidiaeth a fyddai'n gysylltiedig â'r defnydd arfaethedig, yn enwedig o ran culni'r ffordd a'r nifer fechan o fannau pasio ar gyfer cerbydau, yn groesi i Bolisi A1(iv) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr.

## 797. MATERION GORFODAETH

(i) ENF/531/99/S Tir oddi ar Stryd yr Eglwys, Henllan, Dinbych

Newid defnydd tir i iard hen heyrn yn ddiawdurdodedig, yn cynnwys storio'r eitemau cysylltiedig, a chyflwr y tir yn effeithio'n andwyol ar amwynder y gymdogaeth.

***PENDERFYNWYD*** *caniatau awdurdod ar gyfer y canlynol:-*

*(a) Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau fod y newid defnydd tir diwawdurdodedig i iard hen heyrn a'r storio cysylltiedig yn dod i ben, ac i sicrhau fod yr holl ddeunyddiau diawdurdodedig yn cael eu symud oddi ar y tir;*

*(b) Cyflwyno Rhybudd o dan ddarpariaethau Adran 215 y Ddeddf Cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu'r camau angenrheidiol ar gyfer adfer cyflwr y tir;*

*(c) Y swyddogion i ddefnyddio unrhyw ddull gweithredu arall o dan bwerau dirprwyedig yn cynnwys gweithredu Deddf Adeiladu 1984 er mwyn ymdrin â'r mater, a*

*(ch) dechrau gweithredoedd erlyn neu weithredu arall priodol o dan y Deddfau Cynllunio neu unrhyw Ddeddfau perthnasol eraill os nad yw'r un neu'r rhai sy'n destun y rhybuddion yn cydymffurfio â gofynion y rhybuddion hynny.*

(ii) ENF/432/98/S Bryn-yr-Ogof, Lôn yr Ysgol, Llanarmon-yn-Iâl

Gosod carafan i ddarparu llety preswyl.

***PENDERFYNWYD*** *caniatau awdurdod ar gyfer y canlynol:-*

*(a) Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau fod y defnydd preswyl diawdurdodedig yn dod i ben a bod y garafan yn cael ei symud oddi ar y tir, a'r holl eitemau eraill yn gysylltiedig â defnydd preswyl,*

*(b) dechrau gweithredoedd erlyn neu weithredu arall priodol o dan y Deddfau Cynllunio neu unrhyw Ddeddfau perthnasol eraill os nad yw'r un neu'r rhai sy'n destun y rhybuddion yn cydymffurfio â gofynion y rhybuddion hynny.*

## 798. DYDDIAD YR YMWELIAD SAFLE

Gan nad oedd angen ymweld ag unrhyw safleoedd, diddymwyd yr eitem hon.

## 799. RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhestru'r ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo dan awdurdod dirprwyedig rhwng 4 Rhagfyr, 1999 a 31 Rhagfyr, 1999.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25 p.m.

*****************